

Rhifyn llawn
iawn!

WILIA

Y TU MEWN:

2: Cwrs Cymraeg i fydwragedd
3: Merched y Wawr a Threforys
4: Achub y blaned ac Ogofâu Gwyr
5: Ysgol Gyfun Gwyr
6: Arian Hanfod Cymru
7: £3 i Fudiad Meithrin
8: Teledu a Drama

Os ydych chi am noddi Wilia, ffoniwch Elin Meek: 208161

RHIF 402 CHWEFOR 2018
PRIS 50C 0.6 EWRO

PAPUR MISOL
CYMRAEG ABERTAWE

CYMUNED GLOS DYFNANT YN LLENWI EBENESER

Roedd Ebeneser, Dyfnant bron yn llawn, lan a lawr, i glywed perfformiad gwefreiddiol gan Gôr Meibion Dyfnant yn eu cyngerdd blynyddol.

Arweiniwyd gan Jonathan Rogers a chafwyd canu gwych gan Martin Lloyd a chwarae medrus ar y fflwiwt a'r sacsoffon gan Charlotte Gibbs.



Y cyfeilyddion oedd D Huw Rees, Tony Phipps a Christine Beynon. Fel y

pwysleisiodd y Parchedig Christopher Owen wrth eu cyflwyno, bu'r noson yn hysbysebiad gwych o'r ddawn a gynhyrchir o hyd gan gymuned glos Gymreig Dyfnant.

chymdeithasol y penrhyn, gyda Mari Lwyd yn ymddangos ynddi. Cymaint fu'r gefnogaeth fel bu rhaid cario mwy o seddi. Ar ôl y ffilm, daeth y delynores Delyth Jenkins ymlaen i ddiddanu'r dorf - ac yna'r canwr gwerin Tommy Jenkins, gynt o'r grŵp

gwerin Cromlech, a'i awtodelyn drydanol. Da oedd clywed y ddau'n defnyddio'r Gymraeg mewn noson hynod gofiadwy a llwyddiannus yng



nghanol penrhyn Gŵyr. Llun: Delyth Evans y delynores yn diddanu yn Reynoldston.

FRED AC ELDRYDD YN NEWID AELWYD



Rali Goffa'n Cefnogi Catalwnia

Anfonwyd neges o gefnogaeth i ymgyrchwyr dros annibyniaeth yng Nghatalwnia gan seremoni a gynhaliwyd i nodi Brwydr Gŵyr ar y Garn Goch ger Penlle'rgaer, Abertawe dros 800 o flynyddoedd yn ôl. Mae nifer o genedlaetholwyr yng

Nghatalwnia ar hyn o bryd yn cael eu dal yn garcharorion gwleidyddol gan lywodraeth Sbaen.

Cynhelir y cyfarfod yn flynyddol ar y cyntaf o Ionawr, dyddiad y frwydr yn 1136 pan lwyddodd byddin Gymreig dan arweiniad

Hywel ap Maredudd drechu'r Normaniaid. Mae'r cyfarfod yn cymryd lle yng nghysgod garreg goffa a ddadorchuddiwyd yn 1986 gan y diweddar Gwynfor Evans, cyn

Daw cyfnod o wasanaeth hir yn Abertawe i ben, wrth i Fred ac Eldrydd Williams godi eu pac a dilyn eu merch Abigail a'u hywres Cari Grug i Gaerdydd.

Bu'r ddau'n hynod weithgar mewn gwahanol gyfchoedd, gan gynnwys yr Urdd, Capel Bethel, y Cylch Cinio a bu Eldrydd yn athrawes yn Ysgol Bryn-y-Môr am flynyddoedd.

Llun: Ceri Davies a Rob Evans yn ddiolch i Fred ar ran y Cylch Cinio: adroddiad ar dudalen 3.



0 700461 826385

Diwrnod Blasu Nyrsio a Bydwragedd

Yn dilyn llwyddiant y coleg wrth ennill arian prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, trefnwyd Diwrnod Blasu Nyrsio, Bydwragedd a Gwaith Cymdeithasol i'r myfyrwyr hynny sydd â diddordeb dilyn gyrfa yn y meysydd hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Trefnwyd y diwrnod gan ein Hyrwyddwr Dwyieithrwydd, Anna Davies, "Y nod oedd annog myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i astudio eu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, ac ymgaisio am ysgoloriaeth cymhelliant sydd ynghlwm a'r cyrsiau hynny." Cydweithwyd gyda cholegau Addysg Bellach cyfagos a rhai ysgolion Cymraeg rhanbarth y de-orllewin er mwyn sicrhau bod y neges yn cyrraedd cymaint o bobl a phosib a bod bob myfyrwr potensial yn cael cyfle i fynychu'r diwrnod.

Cafwyd darlithoedd byr mewn Nyrsio a Bydwragedd a Gwaith Cymdeithasol yn Gymraeg gan Amanda Jone, Annika Bell, Angharad Jones a Miriam Leigh, darlithwyr cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Bu'r myfyrwyr yn ffodus iawn hefyd i gael digon o gyngor am eu ffurflen gais, y broses gyfweled ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Meddai Elin Leyshon, Swyddog Cangen y Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, "Cafwyd sesiynau ymarferol yn yr ystafelloedd clinigol yn y prynhawn. Amrywiwyd o frwsio dannedd claf, geni babi, gosod gwely, a chymryd pwysau gwaed. I gyd yn brofiadau hollol newydd i'r myfyrwyr, a'u harweiniwyd gan Amanda ag Annika a pum myfyrwr Cymraeg cyfredol. Roedd sesiynau ar waith cymdeithasol gan Miriam Leigh yn fuddiol, a bu'r drafodaeth am yr hyn sy'n gwneud gweithwyr cymdeithasol da. Ffocysodd

feddylliau'r myfyrwyr ar yr hyn fydd angen iddynt fedru dangos ar eu ffurflen gais ac mewn cyfwelediad."

Yn dilyn llwyddiant y diwrnod y gobaith yw tracio nifer y myfyrwyr sydd nawr ym mynd ymlaen i astudio ar y cyrsiau hyn, yn Gymraeg, ac yn derbyn ysgoloriaeth am wneud hynny. Y gobaith yw gallwn drefnu diwrnod tebyg ar y cyd cyn diwedd y flwyddyn academaidd nesaf. Meddai Anna Davies "Mae trefnu diwrnodau fel hyn ar y cyd yn atgyfnerthu'r berthynas honno rhwng colegau Addysg Bellach a'r Brifysgol, ac yn dangos i'r myfyrwyr bod eu sgil yn y Gymraeg yn un bwysig yn enwedig o ran cyflogadwyedd."

MYFYRWYR YN DYSGU AM STIWDIO RECORDIO DDWYIEITHOG

Bu criw o fyfyrwyr o gwrs Safon Uwch Technoleg Cerdoriaeth ar ymweliad a stiwdio recordio

Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn, a dyma'r ail ymweliad at y stiwdio, gan fod y myfyrwyr yn cael cymaint o fudd o'r profiad. Mae'n hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn diwydiant pwysig yng Nghymru, yn ogystal â manteision dechrau busnes eich hun. Dywedodd Simon Prothero Arweinydd Cwricwlwm Technoleg Cerd "Rydym yn ddiolchgar iawn o'r amser mae Dan wedi rhoi i gynnal y gweithdy yma. Mae'r cyfleusterau yma'n wych, ac mae dod yma yn galluogi i ni ehangu gorwelion ein myfyrwyr a rhoi profiad 'go iawn' iddynt o weithio mewn stiwdio recordio broffesiynol". Myfyrwyr yn darganfod cyfleoedd perfformio Cymraeg



Bu criw o fyfyrwyr Cymraeg sy'n dilyn cyrsiau Perfformio yn yng Ngholeg Gwyr Abertawe yn ymweld â thim talentog sy'n rhedeg cwrs BA Perfformio yng

broffesiynol Long Row Audio, yn Nhreforest ym mis Tachwedd. Mae perchennog y stiwdio Dan Edwards, yn rhugl yn y Gymraeg ac yn cynnig cyfleoedd dwyieithog i gael recordio cerddoriaeth. Dysgodd ein myfyrwyr am fuddiannau a thrafferthion rhedeg busnes eich hun: cawsant gyfle i gyfansoddi caneuon a defnyddio'r offer ar gael yn y stiwdio. Yn y prynhawn bu cyfle i'r myfyrwyr i gyd recordio eu caneuon ar feddalwedd Cubase.

Nghanolfan Berfformio Cymru yn y Gate yng Nghaerdydd - cwrs sy'n cael ei ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd ein myfyrwyr gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai actio, dawnsio a chanu dan arweiniad Eiry Thomas, Jackie Bristow, Elen Bowman ac Eilir Owen Griffiths. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl a dysgu, ynghyd a hybu'r Gymraeg yn y maes yma.

"Rydym yn ddiolchgar iawn i Eilir a'r tim am y cyfle i gael ymweld â'r lle, a gobeithwn yn daer cael gwneud hwn yn flynyddol er mwyn cynnal ein perthynas a'r Gate," meddai ein Hyrwyddwr Dwyieithrwydd Anna Davies. "Rydym yn edrych ymlaen i weld eu perfformiad Nadolig o Sweeney Todd ddiwedd y tymor.



Carolau a Choeden ym Mhontybreinin

O ganlyniad i haelioni teulu yr ysgol, codwyd £355 i'r elusen arbennig hon. [Sioe Nadolig Cyw](#)



Cafodd disgyblion y Meithrin a'r Derbyn amser bendigedig yn gwylio sioe Nadolig Cyw yn Theatr y Dywysoges Frenhinol ym Mhort Talbot, ar Ddydd Gwener 8^{fed} o

Cafwyd noson arbennig o ganu carolau o gwmpas y goeden ar nos Lun, 18^{fed} o Ragfyr a braf oedd gweld cymaint o deuluoedd allan yn cymdeithasu ac yn mwynhau. Diolch i waith di-flino holl aelodau 'Ffrindiau YGG Pontybreinin', roedd hi'n lwyddiant ysgubol unwaith eto eleni gyda phawb wedi mwynhau mas draw.

Diwrnod Siwmperi Nadolig

Cefnogwyd elusen Achub y Plant ar Ddydd Gwener, 15^{fed} o Ragfyr, gyda holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn gwisgo eu siwmperi /gwisgoedd Nadoligaidd gorau.

Ragfyr. Roedd pawb wrth eu boddau yn canu a dawnsio yn y gynulleidfa a braf oedd gweld y cast yn cymdeithasu gyda'r plant ar ddiwedd y sioe. [Cyngherddau Nadolig yr ysgol](#) Cynhelir 9 cyngerdd Nadolig ym mis Rhagfyr, gyda disgyblion yr ysgol, o'r Meithrin i Flwyddyn 6, yn arddangos eu talentau a'u brwdfrydedd wrth berfformio i gynulleidfa oedd eiddgar o rieni, teuluoedd a ffrindiau. Hyfryd oedd cael cynnal ein gwas-anaethau ar draws y gymuned leol, gyda Neuadd Pontlliw, Neuadd Les Casllwchr ac Eglwys Santes Catherine yn estyn croeso twymgalon i ni.

Bu farw Beryl Edwards, gwraig Dafydd Idris Edwards, ar 23 Rhagfyr ar ôl salwch hir. Roedd Beryl yn hanu o Tylorstown yn y Rhondda Fach, ac ar ôl dysgu Cymraeg fe aeth ati i'w chefnogi'n frwd, gan

chwarae rhan weithgar yn y frwydr enwog dros addysg Gymraeg yn ardal Pontsionnorton. Mae Dafydd Idris yn dod yn wreiddiol o ardal Treforys a bu'n ddisgybl yn ysgolion Lônlas a Dinefwr. Bu'n brifathro cyn ymddeol ac mae'n adnabyddus ledled Cymru am ei gyfraniad i'r byd canu gwerin. Mae Willia yn estyn ein cydymdeimlad i Dafydd a'r teulu.

Merched y Wawr Gorllewin Morgannwg

Mae'r aelodau yn edrych ymlaen yn eiddgar at noson 'Bwrlwm Bro', pan fydd canghenau'r rhanbarth yn dod at ei gilydd i gyflwyno eitemau o frethyn cartref. Bydd ambell gôr, parti canu, sgets a darlenniadau yn ystod y noson amrywiol ei chynnwys. Bydd y Parchedig Eirian Wyn yn dod atom i arwain y



noson.

Cynhelir y noson yn Ysgol Gynradd Lon-las ar nos Fawrth 13eg Chwefror am 7 o'r gloch. £5 (yn cynnwys te / coffi) fydd pris y tocyn. Dewch i fwynhau noson o adloniant ysgafn.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi hefyd mai Menna Lewis yn wreiddiol o Lanbedr pont Steffan ond bellach o Bontypridd fydd Swyddog Datblygu newydd y rhanbarth. Meddai 'Dwi newydd ym-ddeol yn gynnar iawn iawn o fyd addysg ac yn edrych mlaen at profiadau gwahanol - teithio'r byd, cerdded llwybr arfordir Sir Benfro a mwynhau cwmni teulu a ffrindiau. A gobeithio cael ci defaid yn gwmmni!'

At hyn mae gennym Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr newydd yn y rhanbarth, sef Jén Dafis, hithau'n Gardi ac wedi bod yn gweithio am flynyddoedd i Mudiad Ysgolion Meithrin. Bydd croeso cynnes iddynt ill dwy gan aelodau Merched y Wawr Gorllewin Morgannwg.

Canu Plygain yn Nhreforys



Gyda'n Cinio Nadolig ardderchog yng Nghlwb Golff Langland fe ddaeth ein blwyddyn I ben. Wrth i'r rhifyn hwn o "Wilia"

mynd l'r wasg rydym yn edrych ymlaen at noson agoriadol 2018 - noson o ganu Plygain ynghwmni Parti Plygain Llandeilo. Fe fyddwn yn cynnal y noson yn Eglwys Dewi Sant, ond fe ddychwelwn l'n cartref arferol yn Ffestri'r Tabernacl, Treforys ar nos Iau Chwefror 15ed. Gyda sylwadau'r teithwyr a lluniau fe fyddwn yn bwrw golwg dros ein taith i'r "Hen Ogledd" haf diwethaf. Ym mis Mawrth edrychwn ymlaen at noson yng nghwmni'r naturieithwr o Glydach, Dewi Lewis. Mae cyfarfodydd y Gymdeithas yn dechrau am 7.0.g.y.h. ac mae rhaglen 2018 ar gael yn "Wilia" Rhagfyr/Ionawr. Mae croeso cynnes yn eich aros.

JOHN HARRI, HYWEL HARRIS A CHARNHUANAWC

Ein gwŷr gwadd mis Ionawr oedd John Harri, crwydryn o fri. Cawsom ein tywys o gwmpas y Mynyddoedd Duon a chlywed hanes Hywel Harris a Charnhuanawc dynion sydd mor bwysig i'n crefydd a'n hiaith, aeth a ni i gael hanes Tretŵr cyn mentro i Gwm Ewyas i edmygu eglwys Patrïas a'i chroglloft gain a rhyfeddu at eglwys gam Cwniour. Ymlaen wedyn i brofi tawelwch Cwm Olchon a gwneud ein ffordd yn ôl i'r Gelli Gandryll heibio Abaty Dôr ac eglwys Bacton. Siwrne bleserus iawn, defnyddiol iawn ar ôl cael pryd o fwyd ardderchog yn Neuadd Sgeti. Diolch yn fawr i John am noson ddifyr dros ben ac fel rheol dyna fydd diwedd y noson ond y tro yma roedd rhaid treulio amser yn talu teyrnged i'n cyn ysgrifennydd Ffred Williams ar ôl 36 o flynyddoedd yn y swydd. Mae o a'i wraig ar fin symud i Gaerdydd i fyw ac mi fydd o'n golled fawr i'r Cylch, nid yn unig achos ei swydd ond hefyd fel aelod ffyddlon dros y blynyddoedd.

Mi wnaeth un o'n cyn Cadeiryddion Ceri Davies roi diolch iddo ar ran pob cadeirydd dros y cyfnod am ei waith a'i gymorth ac mae'n deg i ddweud bod ei ymdrechion dros yr holl amser yn gyfrifol am y ffaith ein bod ni'n dal yma ac yn gryf. A sut oedd y ffordd gorau i fynegi ein diolch iddo, dyna oedd y cwestiwn mawr, wel ddaru ni ofyn i'r Prifardd Robat Powell cyfansoddi enghyn iddo a dyma hi

Cynlluniodd fainc ein lluniaeth, - a hwyliodd

Fwrdd melyn cwmniath; ;

A rannodd ein cyfriniaeth

A wŷr werth y gwŷr a aeth.

Diolch yn fawr Ffred a dymuniadau da am y dyfodol, mi fyddwn ni'n dy golli di.

Cyfarfod nesaf ar Chwefror 14eg, y siaradwraig yw Rhian Jones.

I ymaelodi cysylltwch â'r ysgrifennydd, John Thomas ar 01792 423504

PARELLEL.CYMRU

Mae cylchgrawn dwyieithog Cymraeg-Saesneg yn lansio y mis hwn: parallel.cymru. Mae'r cylchgrawn yn unigryw achos mae'n darparu yr un cynnwys yn y Gymraeg a Saesneg, ochr yn ochr - yn baralel. Mae'n wych am ddysgwyr, pobl gyda phrofiad o Gymraeg ond nid yn rhugl, a phobl dramor . Hefyd, dw i'n cydweithio gyda chanolfannau Dysgu Cymraeg i roi adnoddau arno fe, ee awgrymiadau o lyfrau i ddysgywr a gramadeg Q&A . Achos mae e'n rhywbeth newydd a hollol unigryw, gwnes i feddwl bydd e'n eitem ddiddorol i gyflwyno yn Wilia, yn enwedig fel dw i'n seiledig yn yr un ardal?

Mae e mwy o fanylion yma: https://www.dropbox.com/sh/nc2qww010swvdsb/AADA1yOD0B9_yvzsP_m-mGcPa?dl=0

Edrych ymlaen at glywed ohonoch chi

Neil Rowlands

Rheolwr y Prosiect

parallel.cymru

parallel.cymru@gmail.com

twitter.com/parallel_cymru

Wilia

Y rhifyn hwn wedi'i olygu gan Heini Gruffudd

Diolch i bawb am eu cyfraniadau

Rhifyn mis Mawrth: yng ngofal Steve Morris

Anfonwch eich eitemau i'r cyfeiriad e-bost arferol:

wilia@hotmail.co.uk

Deunydd i law erbyn Chwefror 20



PANED GYDA CHYMDEITHAS CEREDIGION I ACHUB Y BLANED

Cymdeithas Ceredigion a Thŷ'r Cymry. Ionawr 2018

Ar yr 8fed o Ionawr ein gwŷr gwadd oedd Hywel Davies. Yn enedigol o Bontarddulais ac ar ôl raddio o Brifysgol Aberystwyth mi aeth i weithio fel newyddiadurwr ar y Merthyr Express cyn symud i HTV, wedyn aeth gyda'i wraig Charlotte, sydd yn Americanes, i weithio yn yr Unol Daleithiau am 3 mlynedd ond cafodd ei demtio nôl i'r Hen Wlad ac i HTV i weithio ar Hel Straeon. Ond doedd o ddim efo ni i siarad am ei waith ond am ei frwdfrydedd a'i hofnau am yr amgylchedd ac wrth feddwl am yr helynt am yr holl blastig sydd yn nofio yn y môr roedd y pwnc yn amserol iawn. Hywel a Charlotte oedd y nhw a sefydlodd Y Papur Gwyrdd yn 2007 ac yn ei gyhoeddi ar bapur tan 2012, bellach mae e i weld ar y we www.ypapurgwyrdd.com. Cawsom lawer o wybodaeth am ein heffaith ar yr amgylchedd cyn cael trafodaeth anffurfiol a bywiog dros baned o de. Cyfarfod difyr iawn a phob lwc i Hywel a Charlotte yn y gwaith pwysig iawn maen nhw'n gwneud. Cyfarfod nesaf yng Nghapel y Drindod, Glanmor Park Road ar y 12fed o Chwefror am 1.15, ein gwŷr gwadd bydd Alun Gibbard. Croeso cynnes i bawb.

OGOFAU GWYR

Yn y diweddaraf o'u darlithoedd fe redodd Cyfeillion Amgueddfa Abertawe allan o seddi.

Anerchwyd torf frwd gan Dr Elizabeth Walker o Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar ogofau Gŵyr a'u trigolion cynharaf. Ond ddeg munud cyn yr amser i ddechrau ar ei haraith roedd rhaid cau'r drysau.

Bellach mae'r trefnwyr - Sefydliad Brenhinol De Cymru, yr RI - yn ystyried trefnu perfformiad arall ar gyfer y rhai yr oedd rhaid eu troi i ffrwd.

Yn ei darlith, edrychodd Dr Walker ar y dystiolaeth o fyw a chladdu mewn ogofau - o'r adeg ryw chwarter miliwn o flynyddoedd yn ôl gan bobl Neanderthal i'r gwaith a wnaed ganddi'n ddiweddar i archwilio ogof Cathole ger Parkmill.

Disgrifiodd hanes enwog 'Ledi Goch Pafiland' - mewn gwirionedd dyn ifanc a gladdwyd ryw 32,000 o flynyddoedd yn ôl.

Llun: Andrew Green o'r RI yn trafod y ddarlith gyda Dr Elizabeth Walker.



RYGBI YN NHY TAWE

Sadwrn, Chwefror 3, 2.15: yr Alban
Sadwrn, Chwefror 10, 4.45: Lloegr
Sadwrn, Chwefro 24, 2.15: Iwerddon
Sul, Mawrth 11, 3.00: yr Eidal
Sadwrn, Mawrth 17, 5.00: Ffrainc



CYLCH DARLLEN YN CANMOL

Sylwadau'r Cylch Darllen am *Hen Bethau Anghofiedig*, Mihangel Morgan. Rhoddwyd marciau o 6 i 8.5/10

"Ysgrifennu bywiog"

"Roedd yr awdur wedi dal fy sylw i'r diwedd."

"Lawer o sylwadau crafog fel sydd i'w ddisgwyl gan Mihangel Morgan."

"Mae sawl stori yma mewn gwirionedd - stori'r daith ar y trê, stori Merfyn a stori Harri."

"Mae ymdeimlad cryf iawn o le yma - gallwn ddychmygu Cwm Ystwyth."

"Mae hanes bywyd Mona yn ddi-ddorol - da ei bod wedi cael llais."

"Llawer o gyfeiriadau at fannau a chymeriadau sydd yn *Dan Gadarn Goncrit* - e.e. yr enw Lluest, Aberdyddgu, a darlithwyr yr Adran Gymraeg yno - rhai'n bobl go iawn."

"Wedi ei fwynhau ar y cyfan, ond yn siomedig iawn efo'r diweddgllo."

"Doeddwn i ddim yn hoff o'r patrwm newid ffontiau o gwbl - byddai'n llawer gwell gen i fod wedi cael penodau byr neu o leiaf cychwyn tudalen newydd ar gyfer pob newid."

"Dwi ddim yn siŵr chwaith am bwrpas y daith trê a'r gwrandawr - byddai ffurf ar ddyddiadur wedi gweithio neu adrodd y stori yn y

trydydd person."
"Deunydd ffilm deledu?"
"Yn hoffi'r clawr"
"Wedi datblygu thema adennill gwreiddiau, cyn taflu'r cyfan o'r neilltu ar y diwedd, yn fwriadol, efallai?"

I ddod:

12 Chwefror: *Y Plygain Olaf*, Myfanwy Alexander, Gwasg Carreg Gwalch, £9.

Mae cynlluniau'r Arolygydd

Daf Dafis am Nadolig tawel

yn cael eu chwalu yn dilyn llofruddiaeth ym Maldwyn.

12 Mawrth: *Y Gwreiddyn*, Caryl Lewis, Y Lolfa, £7.99.

Straeon byrion yn ymwneud â natur, perthynas dyn â'i gyd-ddyn, cariad a cholled.



CYMRAG

Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government



Gŵyl Shakespeare.

Yn ystod mis Tachwedd, cafodd disgyblion yr ysgol gyfle i fod yn rhan o'r ŵyl Shakespear blynyddol yn theatr y Taliesin, Abertawe. Ar ôl wythnosau o baratoi a hyfforddi, dan ofal Mrs Lydia Jones Pennaeth Drama ac Eleri Davies o'r adran

Saesneg, cafwyd ymateb gwyth oddi wrth gyfarwyddwyr yr ŵyl yn nodi eu bod wrth eu boddau

gyda'r defnydd o leoliadau ar y llwyfan a'r symudiadau corfforol i gyfleu'r teimladau a gwaethpwyd defnydd effeithiol iawn o theatr corfforol.



Theatr mewn cymeriad:

Fel rhan o drefniadau 'Cwricwlwm y Dyfodol' trefnodd adran ddyuniaethau Gwyr i'r cwmni 'Theatr mewn Cymeriad' ymweld â'r ysgol. Cafodd disgyblion blwyddyn 7 gyfle i fwynhau'r sioe 'Taith yr Iaith' yn olrhain hanes yr iaith dros y blynyddoedd. Mwynhaodd y disgyblion yn fawr chwarae rôl unigolion fel William Morgan a Harri'r VIII, wrth ddysgu am y frwydr i achub a diogelu'r iaith yn sgil datblygiadau megis y deddfau uno, arfer y 'Welsh Not' a 'Brad y Llyfrau Gleision.

Fel rhan o'u gwersi Hanes ar fore Llyn y 4ydd o Ragfyr, cafodd disgyblion blwyddyn 8 hefyd y cyfle i weld perfformiad gan yr un cwmni.

Roedd y perfformiad y tro hwn, am y bardd a'r milwr enwog Hedd Wyn. Cafwyd cyflwyniad bywiog, hwylus, llawn angerdd a ddaeth a hanes Ellis Humphrey Evans yn fyw i'r disgyblion. Diolch i Mr Williams am gytuno i fod yn Archdderwydd yn ystod y perfformiad a diolch yn fawr i Mrs James a'r adran Hanes am drefnu.

Cyngerdd Nadolig Gŵyr i ddisgyblion Pen y Bryn:

Unwaith eto eleni, cawsom groeso cynnes iawn gan athrawon a disgyblion Ysgol Pen y Bryn ar ddiwedd tymor y Gaeaf. Teithiodd ddisgyblion y chweched dosbarth, aelodau o gôr hŷn yr ysgol a staff i berfformio cyngerdd Nadoligaidd. Roedd llawer o wenu a chanu a phawb yn mwynhau. Diolch i'r unawdwyr sef Liam McGlinchey a Ffion Pirotte ac hefyd i'r ddeuawd sef Katia Evans a Rhiannon Stock gyda Rhian Hutchings yn cyfeillio ar y soddgrwth. Diolch i Mr Lewis am gyfeillio unwaith eto eleni ac edrychwn ymlaen at ddychwelyd ym mis Rhagfyr 2018!

Pwyllgor Elusennol y chweched dosbarth:

Da iawn i bwyllgor elusennol y chweched dosbarth (o dan arweinyddiaeth y prif ddisgyblion) i godi tua £500 tymor diwethaf ar gyfer plant mewn angen. Y bwriad nawr yw parhau gyda'r gwaith caled ar gyfer elusen newydd. Daliwch ati!



FFARWEL I LLINOS JOHN

Gorchwyl trist oedd i Ysgol Gyfun Gwyr ffarwello a Mrs Llinos John, Pennaeth Cynorthwyol yr Ysgol, ar ddiwedd Tymor yr Hydref. Fe wnaeth Mrs John wasanaethu yr ysgol am 32 o flynyddoedd cyn iddi benderfynnu ymdeol ar drothwy y flwyddyn newydd.

Daeth Mrs John i Gwyr yn Ionawr 1986 ar ol cyfnod byr yn addysgu yn Ysgol Cwmtawe. Gydol cyfnod Prifathrawiaethau Dr Daniel a Mrs Davies, bu Mrs John yn arweinydd o fewn cymuned yr ysgol wrth iddi dyfu o fod yn ysgol fach i'r sefyllfa

Cefnogi Banc Bwyd Gorseion dros y Nadolig:

Yn ystod adegau corffestau boreuol ym mis Rhagfyr, mae disgyblion Blynyddoedd 7 – 9 dan ofal y cyngor blwyddyn a'r penaethiaid dysgu a chynnydd, wedi bod yn casglu nwyddau ar gyfer cefnogi banc bwyd Gorseion. Ar fore dydd Iau 7fed o Ragfyr, teithiodd gynrychiolwyr o Flwyddyn 7, 8 a 9 i Orseion i drosglwyddo'r bwyd a gasglwyd er mwyn iddynt wneud defnydd ohonynt dros gyfnod y Nadolig. Diolch i Miss Dafydd am y gwaith trefnu ac i Ms James a Mr Davies am dywys y plant draw i Orseion.

heddiw gyda bron i fil o ddisgyblion. Nodweddwyd Mrs John gan ddyfalbarhad a dycnwch. Bu'n drylwyr ym mhopheth y byddai yn ei wneud – Mrs John fu'n cydlynu ochr



Gwyr o Bartneriaeth y Chweched o'r dechrau. Roedd Mrs John yn athrawes a gafodd y gorau allan o'r disgyblion ar hyd y cenedlaethau ym meysydd DT, Bwyd, Iechyd a Gofal. Bu'n Bennaeth Blwyddyn a Phennaeth Adran cyn ennill dyrchafiad fel Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol yn 2004. Roedd Mrs John yn ffrind ar lefel personol i nifer yn Gwyr, yn barod i gynnig a derbyn cyngor, ac i fod yn gefn pan oedd yr angen yn codi. Po agosaf y byddech yn cydweithio gyda Mrs John, mwyaf y byddech yn gwerthfawrogi ansawdd ei gwaith a'i phroffesiynoldeb.

Ar ran YGGwyr, diolch o waelod calon i Mrs John, am ei chyfraniad i fywyd a gwaith yr



Ethol Dyfrig Davies yn Gadeirydd Urdd Gobaith Cymru

Dyfrig Davies o Landeilo yw Cad-eirydd newydd mudiad Ieuencid Urdd Gobaith Cymru yn dilyn cyfnod Tudur Dylan Jones wrth y llyw.

Yn wreiddiol o

Gastell Newydd Emlyn yn nyffryn Teifi, mae Dyfrig bellach yn byw gyda'i deulu yn ardal Llandeilo Bu'n athro uwchradd am ychydig flynyddoedd cyn mynd i weithio i fyd y cyfryngau. Erbyn hyn, mae'n uwch gynhyrhydd a rhan berchennog o gwmni Telesgop yn Abertawe sy'n cynhyrchu rhaglenni teledu ar gyfer S4C, Channel 4, a BBC a hefyd rhaglenni radio a deunyddiau dysgu dwyieithog i Lywodraeth Cymru.

Mae wedi bod ynglwm â'r Urdd ers blynyddoedd.

Tan ei benodiad roedd Dyfrig yn Gadeirydd ar Fwrdd Eisteddfod yr Urdd.

Gan ymateb i'w benodiad, dywedodd,

"Dw i'n ei 'stryied hi'n fraint ond hefyd yn gyfrifoldeb mawr. Di-olch didwyll i Tudur Dylan am ei waith rhag-orol dros y blynyddoedd. Wrth edrych tua'r dyfodol, dw i'n edrych ymlaen at gydweithio gyda Sian Lewis ein Prif Weithredwr newydd – mae'n gyfnod cyffrous i'r mudiad."

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, fydd ar y sgrîn yn y gwanwyn am gyfres arall.

Unwaith eto, bydd ein cyflwynwyr - y garddwyr brwd Iwan a Sioned Edwards a Meinir Gwilym - yn ymadael â'u gerddi eu hunain yn achlysurol i gynnig help llaw i arddwyr eraill ar hyd a lled Cymru. Nid trawsnewid gerddi yw'r bwriad, ond yn hytrach ddod a bywyd newydd iddi trwy ganolbwyntio ar ran ohoni a welai fudd diwrnod caled o dorchu llewys.

Felly, pa agwedd bynnag o'r ardd sydd angen sylw, dewch i gysylltiad â ni. Yn ddelfrydol, dylid anfon cyfres o luniau a disgrifiad byr o'r joban dan sylw, neu o ddyheadau'r perchennog (fydd wrth gwrs yn cymeryd rhan yn yr eitem!).

Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685 300 (a gofyn am Euros neu Meinir) neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes, Tim Garddio a mwy

Dwy elusen o ardal Abertawe yn derbyn grantiau oddi wrth Hanfod Cymru: Loteri Cymru

Mae dwy elusen o ardal Abertawe ymhlith y rhai sydd wedi derbyn grant yn ail rownd grantiau bach Hanfod Cymru - yr elusen sy'n dosbarthu'r arian sy'n cael ei godi at achosion da gan Loteri Cymru. Mae Circus Eruption yn cynnal digwyddiadau syrccas er mwyn hybu cynhwysiant, a bydd grant Hanfod Cymru yn cyfrannu at gyflog cyd-lynydd gwirfoddolwyr. Mae Clybiau Plant Cymru yn bwriadu cynnal prosiect peilot ar Benrhyn Gŵyr o'r enw 'chwarae ein ffordd ni'.

Dywedodd Sion Brynach, Prif Weithredwr Hanfod Cymru:

"Gwnaeth Circus Eruption a Chlybiau Plant Cymru yn wych felly i ddarbwyllo'r Bwrdd y dylid cefnogi'r cais oddi wrthynt am arian tuag at ehangu gweithgarwch celfyddydol y naill elusen a'r llall.

"£50,000 oedd ar gael i'r Bwrdd ei ddsbarthu. Mae'r neges yn glir felly – os hoffech chi weld mwy o grantiau ar gael i elusennau yng Nghymru, yna prynu

tocynnau wythnosol Loteri Cymru yw'r ateb."

Hanfod Cymru yw'r elusen sy'n dosbarthu'r arian sy'n cael ei godi at achosion da gan Loteri Cymru. Mae lleiafswm o 20% o'r elw o gyfanswm gwerthiant tocynnau Loteri Cymru yn cael ei gyfeirio at achosion da yng Nghymru trwy'r elusen. Mae Loteri Cymru yn cynnig gwobr wythnosol o £25,000, yn unol â'r uchafswm a ganiateir gan reolau'r gymdeithas loteri. Pris y tocynnau yw £1 yr un ac mae'n rhaid i enillwyr y jacpot gael pum rhif yr un fath o'r 39 rhif a dynnir. Mae gwobrau llai eraill hefyd ar gael am baru nifer llai o rifau. Mae rhagor o wybodaeth am Loteri Cymru i'w gael o ymweld â <https://www.loteri.cymru/cy/will/home/index.html>

Bydd y ffenest nesaf ar gyfer ymgeisio am grantiau bach Hanfod Cymru yn agor tua diwedd Ionawr 2018. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sut y gall elusennau wneud cais am grantiau Hanfod Cymru ar gael o ymweld â www.hanfodcymru.wales

Perfformio Shakespeare

Llongyfarchiadau i bedwar o ddisgyblion Bryn Tawe - Ffion Tomos, Anwen Morgan ac Ashton Williams (blwyddyn 9) ac i Sion Thomas (blwyddyn 8) am lwyddo cyrraedd ail rownd cystadleuaeth "ESU Performing Shakespeare" eleni. Bydd y pedwar yn perfformio yn y rownd nesaf yng Nghaerdydd yn Chwefror. Mae Ffion ac Anwen yn perfformio golygfa o "A Midsummer Night's Dream", ac mae Ashton a Sion yn perfformio golygfa o "Hamlet". Pob lwc iddyn nhw a diolch i Miss Carys Comley am eu hyfforddi!



Y cyfreithiwr, arbenigwr cyfansoddiadol a bardd Emyr Lewis fydd yn traddodi darlith Gŵyl Dewi ar y dyfodol sy'n wynebu Cymru ar ôl Brexit. Teitl y ddarlith fydd 'Wales and the European Union'. refnir y ddarlith gan yr RISW, sef sefydliad brenhinol De Cymru (cyfeillion Amgueddfa Abertawe) ac fe'i cynhelir yn narlithfa Faraday, campws Singleton am 7pm, Nos Iau 8 Mawrth. Croeso i bawb.



Tyrfe Tawe 2018

Acwstig

Am Ddim

Ty Tawe

7pm

<p>26/1 Karen Owen 7 Llaci</p> <p>23/2 Bronwen Lewis</p> <p>30/3 Heather Jones</p> <p>27/4 Mair Tomos Evans</p> <p>25/5 D'n A— Delyth a Amgueddfa Jonaen</p>	<p>29/6 Lowri Evans</p> <p>27/7 Sorela</p> <p>28/9 Elis Fflur</p> <p>26/10 Catrin O'Neill</p> <p>30/11 Gwenan Gibbard</p>
--	---

Ty Tawe, 7 Mawrth, Abertawe, SA1 4BW

£3 MILIWN I FUDIAD MEITHRIN

Dyfarwyd miliwn o bunnoedd y flwyddyn yn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf i Fudiad Meithrin, i **gynorthwyo'r sefydliad i feithrin gallu ychwanegol** a chyfrannu tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd y sefydliad yn cael £3.031 miliwn y flwyddyn am y ddwy flyyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn cynnwys £2.031 miliwn o gyllid blynyddol a £1 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol yn rhan o'r fargen rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r gyllideb.

Da'r cyllid ar ôl i'r sefydliad gyhoeddi'r papur 'Meithrin Miliwn' yn rhymer yr haf 2017, yn amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd i alluogi Mudiad Meithrin i ymateb yn gadarnhaol i'r uchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Medd Mike Hedges AC "Mae miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged uchelgeisiol iawn. Mae addysg, ac addysg y blynyddoedd cynnar yn arbennig, yn allweddol yn hyn o beth a dyna pam yr ydym wedi gosod targedau i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy sefydlu 40 o gylchoedd meithrin Cymraeg ychwanegol erbyn 2021 a 150 o gylchoedd meithrin Cymraeg ychwanegol dros y degawd sydd i ddo.

"Gan mai Mudiad Meithrin yw'r arbenigwr ym maes gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg, mae gan y sefydliad gyfraniad hollbwysig i'w wneud. Rwyf wrth fy modd felly yn cyhoeddi'r cyllid ychwanegol hwn i'w gynorthwyo i gyfrannu at y targed."

Meddai Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:

"Bydd buddsoddiad ariannol ychwanegol Llywodraeth Cymru yn galluogi Mudiad Meithrin i sicrhau agor Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi o'r newydd er mwyn cyfrannu at dargedau uchelgeisiol strategaeth iaith 'Cymraeg 2050'. Mae'r berthynas rhwng cynnydd yr iaith a gofal plant yn allweddol i lwyddiant y cynllun hwn."

TIPYN O 'SWAY' YM MRYN TAWE

Cafwyd digwyddiad cyffrous iawn ym Mryntawe ar ddydd Mercher Ionawr 15.

Daeth Clwstwr Digidol Bryntawe at ei gilydd, gyda chynrychiolydd o Microsoft i gael bore hyfforddiant ar daenlenni Excell a rhaglen Microsoft o'r enw SWAY.

Y cyntaf i gyrraedd oedd Ysgol Lon Las gydag Ysgol Tany-Lan, Gellionnen, Tirdeunaw, Ysgol Gymraeg y Cwm a Felindre yn dilyn.

Tasg gyntaf y dydd oedd mynd i wefan Tesco ac Argos i chwilio ac i ddarganfod prisiau nwyddau er mwyn creu ystafell wely ddelfrydol. Roedd yn rhaid i'r 'Dewiniaid Digidol' cynradd osod y wybodaeth am brisiau nwyddau i daenlenni Excell a chreu fformiwla ar gyfer creu cyfanswm eu gwariant.

Roedd Arweinwyr Digidol Bryntawe yn rhoi cymorth iddynt wneud y dasg. Ail sesiwn y bore oedd defnyddio rhaglen SWAY. Mae SWAY ar gael i bob disgybl Bryntawe am ddim ar eu cyfrif Office 365. Mae SWAY yn caniatáu i ddisgyblion greu cyflwyniad sy'n cynnwys sawl gwahanol

Daeth nifer o fudiadau i Ffair Lyfrau Radical yn Nhŷ Tawe ar Ddydd Sadwrn 20 Ionawr. Roedd cyfle i arwyddo Llyfr Gwyn Caerfyrddin a phrynu pabi gwyn heddwch ar stondin Cymdeithas y Cymod.

S4C ar dân i gyrraedd gwylwyr newydd wrth gyhoeddi ap newydd

Mae ap cyntaf S4C ar gyfer defnyddwyr Amazon Fire wedi cyrraedd llwyfan Amazon Fire, sy'n caniatáu gwyllo arlwy eang o raglenni S4C yn fyw ac ar alw. Mae gael i'w lwytho o Amazon nawr, o ddydd Llun 8 Ionawr ymlaen. Ymhlith yr uchafbwyntiau sydd ar gael i'w mwynhau mae'r gyfres ddrama boblogaidd Un Bore Mercher, gydag Eve Myles yn y brif ran. Mae pob pennod o'r ddrama afaelgar ar gael i'w gwyllo gyda'i gilydd hyd nes 28 Ionawr.

Meddai Owen Evans, Prif Weithredwr S4C: "Ein gweledigaeth yw sicrhau fod S4C yn cael ei gynnwys ar bob llwyfan, gan gynnwys pob set deledu glyfar sy'n cael ei hadeiladu, cam hanfodol er mwyn



cynnal argaeledd at gynnwys iaith Gymraeg ac rydym yn gweithio tuag at ryddhau ap ar gyfer Samsung TV yn yr wythnosau nesaf."

Mae S4C eisoes ar gael ar bob llwyfan gwyllo ar deledu yng Nghymru, ac ar draws y DU ar Sky, Freesat a Virgin TV. Mae pob rhaglen ar gael yn fyw neu ar alw ar s4c.cymru, BBC iPlayer, YouView, tvplayer.com ac Ap S4C ar gyfer Android ac iOS.

fath o ddogfennau gwybod-aeth. Gellir gosod dogfen 'Word' yn y SWAY, lluniau, fideo a sawl peth arall. Gellir gweld y digwyddiad yma gan gynnwys sawl digwyddiad cyffrous arall ar drydar yr ysgol o dan @bryntawe. Rydym yn edrych ymlaen at gynnal digwyddiad arall fel Clwstwr Digidol ac yn edrych ymlaen yn fawr at gyd-weithio pellach gyda Microsoft.



Eisiau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg?

Eisiau sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot?

Cyfle i gael hyfforddiant am ddim i fod yn diwtor Cymraeg lleol.

Penwythnos hyfforddi 3 a 4 Mawrth, 2018

Am fwy o fanylion ac i gofrestru ebostiwrch: e.m.stonelake@abertawe.ac.uk erbyn 16 Chwefror



#cymraeg2050 #dysgucymraeg



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ardal Bae Abertawe
Swansea Bay Region

Cyhoeddi cyflwynwyr newydd Dechrau Canu Dechrau Canmol



Bydd wynebau newydd a chyfarwydd yn dod ynghyd i gyflwyno un o gyfresi hynaf S4C ar ei newydd wedd nos Sul, 4 Chwefror ar S4C.

Mae'r gyfres grefyddol Dechrau Canu Dechrau Canu wedi bod yn rhan annatod o amserlen S4C ers 1989, ond o hyn ymlaen bydd pump cyflwynydd newydd yn ymuno â'r rhaglen.

Yn eu plith mae cyflwynydd BBC News at Ten, **Huw Edwards**, a'r dyfarnwr rygbi **Nigel Owens** sydd wedi dweud yn y gorffennol mai'r emyn 'Mor Fawr Wyt Ti' yw'r gân olaf mae'n gwranddo arni cyn

camu ar y cae.

Y cyflwynydd **Lisa Gwilym**, yr actor a cherddor **Ryland Teifi** a'r cyflwynydd **Nia Roberts**, sydd wedi cyflwyno'r gyfres yn y gorffennol, sy'n cwblhau'r rhestr.

Mae'r gyfres yn

cynnwys canu mawl mewn amryw o leoliadau ar draws Cymru a chyfweiliadau gyda phobl am eu ffydd a chredoau. Bydd rhaglenni arbennig yn ystod y flwyddyn yn nodi'r dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol ac achlysuron cenedlaethol.

Mi fydd rhaglen gynta'r gyfres yn dilyn y thema rygbi i gyd-fynd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018. Owain Arwel Hughes fydd yn arwain y canu cynulleidfaol sy'n

dod o Eglwys Dewi Sant,

Castell Nedd.

Bydd sgysrsiau gyda'r sylwebydd rygbi Alun Wyn Bevan ac arweinydd Côr y Gleision, Richard Vaughan yn ogystal â chyfweiliad gyda Manon a Gwenan Gravell, merched y diweddar Ray Gravell.

Meddai Amanda Rees, Cyfarwydd Creadigol Cynnwys S4C, "Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol yn un o gonglfeini gwasanaeth S4C ar nos Sul. Mae'n gyfle i ddathlu'r traddodiad mawl a chanu arbennig sy'n ein nodweddu ni fel gwlad, yn ogystal â chyfle i gael sgysrsiau difyr gydag amrywiaeth o bobl am eu profiadau ysbrydol a'r

gwerthoedd moesol sy'n bwysig iddyn nhw. **Mi fydd hi'n braf iawn cael gweld y** cyflwynwyr newydd ar y sgrin ym mis Chwefror, gyda phob un ohonyn nhw'n cynnig rhywbeth gwahanol a chyffrous i'r gyfres."

DOD Â PHOBL AT EI GILYDD

Ydych chi yn ysu cyfarfod rhywun eto? **'Da chi'n chwilio am berthynas gwaed? Neu'n dymuno dod o hyd i'r person** hwnnw wnaeth gymwynas â chi flynyddoedd yn ôl? Ydych chi angen dweud diolch wrth rywun? Neu ail-gynnau tân ar hen aelwyd?!

Dyma gyfle ichi gael dod ynghyd...

Bydd cyfres newydd gyffrous ar S4C yn rhoi'r cyfle i bobl gyfarfod mewn cyfres o aduniadau ddaw â phobl yn ôl at ei gilydd i **wireddu dyhead i weld rhywun o'r gorffennol** unwaith yn rhagor.

Dyma gyfle bythgofiadwy i ail-gydio yn y gorffennol, i ddod i adnabod perthynas am y tro cyntaf, i ail fyw profiadau melys a thrist, cyfle i ail-gydio mewn hen garwriaeth, cydnabod rhywun wnaeth ysbrydoli, neu ddweud diolch .

Mae'r cwmni teledu Darlun yn estyn gwahoddiad i unrhyw rai sydd â diddordeb i gysylltu i drafod ymhellach.

Os ydych chi eisiau cyfarfod efo rhywun eto, cysylltwch am sgwrs pellach efo Gwen o gwmni teledu Darlun ar 01248 531531 neu drwy ebost at gwen@darlun.tv



Theatr
Genedlaethol
Cymru

Canolfan Celfyddydau
Pontardawe

27 Chwefror 19:30
28 Chwefror 11:00

—
www.pontardaweartscentre.com
01792 863722

Y TAD

gan

Florian Zeller

Trosiad Cymraeg gan
Geraint Løvgreen

Theatr Genedlaethol Cymru mewn cydweithrediad â Pontio

#YTad

@TheatrGenCymru

theatr.cymru



Cyngror Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Mynediad i'r di-Gymraeg drwy
gyfrwng ap Sibrd.